

Cael llawdriniaeth gydag anesthetig



Llyfryn hawdd ei ddeall

Gall cael llawdriniaeth swnio'n frawychus, ond mae yna bethau y gallwch chi eu gwneud i'ch helpu i deimlo'n llai pryderus.

Mae'r llyfryn hwn yn egluro rhai geiriau sydd efallai'n anodd eu deall.

Mae hefyd yn egluro beth i'w ddisgwyl a sut i baratoi ar gyfer llawdriniaeth.

Gobeithiwn y bydd yn ddefnyddiol i chi.



Ystyr y geiriau anodd

Mae anesthesia yn eich rhoi chi i gysgu ar gyfer llawdriniaeth.

Anesthetigion cyffredinol

meddyginiaethau sy'n eich rhoi chi i gysgu fel eich bod yn gyfforddus yn ystod y llawdriniaeth.

Clinig cyn-asesu clinig yn yr ysbyty lle bydd nyrs yn gofyn cwestiynau i chi am eich iechyd. Efallai y byddwch hefyd yn cyfarfod anesthetydd i drafod y cynllun ar gyfer yr anesthetig.

Caniwla tiwb plastig tenau y bydd meddyg neu nyrs yn ei osod yng nghefn eich llaw i roi meddyginiaethau neu hylifau i chi.



Pwy fydd yn gofalu amdanoch chi yn yr ysbyty

Byddwch yn cyfarfod llawer o bobl yn yr ysbyty. Efallai y byddwch chi'n meddwl tybed pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud.



Yr anesthetydd meddyg sydd wedi'i hyfforddi i roi meddyginiaethau sy'n gwneud i chi gysgu yn ystod y llawdriniaeth.



Y llawfeddyg y meddyg a fydd yn gwneud y llawdriniaeth.



Y nyrs - yn yr ysbyty bydd nyrsys o gwmpas bob amser i'ch helpu chi a'r meddygon. Os bydd gennych chi unrhyw bryderon gallwch siarad â'r meddyg neu â nyrs.



Tîm anesthesia – yr anesthetydd a staff eraill yn yr ysbyty a fydd yn gofalu amdanoch chi cyn, yn ystod ac ar ôl y llawdriniaeth. Gall eich gofalwr ddod gyda chi i'r ysbyty.



Paratoi ar gyfer llawdriniaeth

Os ydych chi'n ffit ac mewn iechyd da cyn y llawdriniaeth, byddwch chi'n gwella'n gyflymach a chydai llai o broblemau.



Os ydych chi'n ysmegu, yn yfed alcohol, neu'n cymryd cyffuriau anghyfreithlon, dylech roi'r gorau iddi neu geisio torri'n ôl cyn y llawdriniaeth. Gall eich meddyg teulu ddweud wrthy ch chi ble i gael help gyda hyn.

Os ydych chi dros eich pwysau, dylech geisio colli rhywfaint o bwysau a bwyta bwydydd iach. Gall eich meddyg awgrymu ble y gallwch chi gael cymorth.





Mae cerdded a defnyddio'r grisiau yn ymarferion da i'ch helpu i ddod yn ffit ar gyfer llawdriniaeth.

Siaradwch â'ch meddyg teulu am unrhyw broblemau iechyd sydd gennych, fel diabetes neu asthma, cyn i chi fynd i'r ysbyty i gael y llawdriniaeth. Bydd eich meddyg yn sicrhau eich bod yn cymryd y meddyginiaethau cywir.

Os oes gennych chi ddannedd rhydd, ewch i weld eich deintydd i gael eu trin cyn y llawdriniaeth. Gall dannedd rhydd ddod allan yn ystod llawdriniaeth.



Efallai y bydd hi'n anodd symud o gwmpas a mynd allan fel arfer ar ôl y llawdriniaeth.

Gofynnwch i'ch teulu, ffrindiau neu ofalwr wneud yn siŵr bod gennych chi ddigon o fwyd a digon o'ch meddyginiaethau arferol ar gyfer pan fyddwch chi'n dod adref o'r ysbyty.

Mae teimlo'n flinedig iawn ar ôl llawdriniaeth yn normal. Gofynnwch i'ch gofalwyr a'ch teulu fod o gwmpas a'ch helpu pan fyddwch yn ôl adref.



Cyn y llawdriniaeth yn yr ysbyty


Bydd yr ysbyty yn anfon dyddiad ac amser atoch ar gyfer apwyntiad yng nghlinig cyn-asesu'r ysbyty. Yno, byddwch yn cyfarfod nyrs neu anesthetydd i drafod y llawdriniaeth.



Gall eich gofalwr neu aelod o'ch teulu fynd gyda chi.



Bydd y meddyg neu'r nyrs yn gofyn cwestiynau i chi am eich iechyd a'r meddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd. **Dewch â'ch holl feddyginiaethau arferol yn eu pacedi (neu restr ohonyn nhw) gyda chi i'r apwyntiad.**





Dywedwch wrthyn nhw am unrhyw alergeddau sydd gennych.



Efallai y byddan nhw hefyd yn trefnu i chi gael rhai profion cyn y llawdriniaeth i wneud yn siŵr y gall fynd yn ei blaen yn ddiogel.



Mae pobl yn aml yn teimlo'n bryderus cyn cael llawdriniaeth. Gallwch chi a'ch gofalwr drafod â'r tîm unrhyw gwestiynau sydd gennych chi am y llawdriniaeth neu'r anesthetig. Byddant yn gallu egluro pethau a chynnig help i chi.





Ar ddiwrnod y llawdriniaeth

Cofiwch gael bath neu gawod cyn mynd i'r ysbyty. Mae croen glân yn llai tebygol o gael ei heintio.




Peidiwch â gwisgo na mynd ag unrhyw un o'r rhain i'r ysbyty:

- ✗ gemwaith
- ✗ colur neu hufenau
- ✗ farnais ewinedd
- ✗ pethau gwerthfawr eraill
- ✗ symiau mawr o arian.



Cofiwch fynd â'r pethau hyn gyda chi i'r ysbyty:

- ✓ eich sbectol, dannedd gosod, cymhorthion clyw gyda batris sbâr; bydd cael blwch ar gyfer y rhain yn ddefnyddiol
- ✓ eich meddyginiaethau arferol. Bydd y tîm yn dweud wrthy'ch chi os oes angen i chi roi'r gorau i gymryd rhai ohonyn nhw
- ✓ rhywbeth i'w wneud ar ddiwrnod y llawdriniaeth, fel cerddoriaeth (gyda chlustffonau fel nad fyddwch chi'n tarfu ar gleifion eraill), rhywbeth i'w ddarllen neu gemau i ymlacio
- ✓ rhywbeth cynnes a chyfforddus i'w wisgo rhag ofn y bydd hi'n oer, a phethau ymolchi.



Bydd yr ysbyty yn dweud wrthy ch chi bryd i roi'r gorau i fwyta.

Mae hynny hefyd yn golygu dim fferins/losin, gwm cnoi na llefrith/llaeth. Os oes bwyd yn eich stumog yn ystod y llawdriniaeth, gallai fod yn beryglus.

Dylech barhau i yfed dŵr nes bydd y nyrs yn dweud wrthy ch chi am roi'r gorau iddi. Mae hyn fel na fyddwch chi'n teimlo'n rhy sychedig pan fyddwch chi'n deffro.

Bydd yr ysbyty yn rhoi gŵn ysbyty i chi newid iddo a band i'w wisgo ar eich arddwrn gyda'ch enw arno.




Pan ddaw'r amser ar gyfer eich llawdriniaeth, bydd nyrs yn mynd â chi i'r ystafell llawdriniaeth.


Efallai y bydd eich gofalwr neu'r nyrs yn cael mynd gyda chi.



Bydd y tîm yn gwirio ychydig mwy o bethau ac yn edrych ar y manylion ar eich band arddwrn. Byddant yn gofyn rhai cwestiynau ichi er mwyn sicrhau bod popeth yn iawn a'ch bod yn cytuno i gael y llawdriniaeth. Gofynnir i chi lofnodi ffurflen ganiatâd.



Bydd yr anesthetydd fel arfer yn rhoi tiwb plastig bach (caniwla) yng nghefn eich llaw i roi'r holl feddyginiaethau y bydd eu hangen arnoch chi yn ystod y llawdriniaeth. Weithiau bydd eich anesthetydd yn defnyddio hufen i wneud hyn yn fwy cyfforddus.





Weithiau, yn lle hynny, gallwch chi anadlu nwy i wneud i chi fynd i gysgu.



Unwaith y byddwch chi'n cysgu, bydd yr anesthetydd yn aros gyda chi nes i chi ddeffro/dihuno.



Ar ôl y llawdriniaeth a mynd adref

Ar ôl y llawdriniaeth byddwch yn cael eich cludo i ystafell ger y theatr nes eich bod yn gwbl effro ac yn iawn. Bydd nyrsys yno gyda chi.

Byddant hefyd yn gallu rhoi moddion ichi i'ch cadw'n gyfforddus, os bydd angen.



Unwaith y byddant yn hapus eich bod yn gwella'n dda, byddant yn mynd â chi i'r ward.

Ar y ward cewch ddechrau yfed a bwyta eto. Yma hefyd, bydd y staff yn dechrau eich paratoi ar gyfer gadael yr ysbyty.



Bydd y staff yn siarad â chi a'ch gofalwr am ba gyffuriau lleddfu poen y bydd angen i chi eu cymryd gartref.

Byddant yn dweud wrthy'ch chi faint i'w cymryd a pha mor aml.



Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch gofalwr yn gwybod pwy i'w ffonio rhag ofn y bydd unrhyw broblemau pan fyddwch chi'n cyrraedd adref. Bydd y staff yn rhoi'r rhif i chi ei ffonio cyn ichi adael yr ysbyty.



Dylech fynd adref gyda'ch gofalwr. Dylai fod gyda chi drwy'r amser am y diwrnod cyntaf a'r noson gyntaf ar ôl i chi ddychwelyd adref.



Cymerwch hi'n araf deg am ychydig ddyddiau ar ôl y llawdriniaeth. Dilynwch yn ofalus unrhyw gyfarwyddiadau ac ymarferion y mae'r ysbyty yn eu rhoi i chi.



Os ydych chi'n teimlo'n sâl iawn neu'n dechrau teimlo'n boeth ac yn chwysu, gofynnwch i'ch gofalwr ffonio'r ysbyty neu fynd â chi yn ôl i'r ysbyty.

Os bydd gennych unrhyw bryderon am eich clwyf cysylltwch â'ch meddyg teulu neu'r ysbyty.

Dilynwch unrhyw gyfarwyddiadau a roddir i chi ynghylch pryd y cewch chi ddechrau gyrru eto.

Pob hwyl gyda'ch llawdriniaeth!

Peidiwch ag anghofio gofyn i'r staff os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau neu os na fydd unrhyw beth yn glir. Maen nhw yno i'ch helpu chi.

Ymwadiad

Rydym ni'n ceisio sicrhau bod yr wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ac yn gyfoes, ond ni allem warantu hynny. Nid ydym yn disgwyl i'r wybodaeth gyffredinol hon ateb pob cwestiwn sydd gennych, na delio â phopeth sydd o bwys i chi. Dylech drafod eich penderfyniadau ac unrhyw amheuan sydd gennych chi gyda'ch tîm meddygol, gan ddefnyddio'r daflen hon fel canllaw. Ni ddylid ystyried y daflen hon, ar ei phen ei hun, yn gyngor. Ni ellir defnyddio'r daflen hon at unrhyw bwrpas masnachol nac unrhyw bwrpas busnes. I weld yr ymwadiad llawn, cliciwch yma (rcoa.ac.uk/patient-information/translations/welsh).

Mae pob cyfieithiad yn cael ei darparu gan gymuned cyfieithwyr Translators Without Borders. Mae ansawdd y cyfieithiadau yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau bod y cyfieithiadau mor gywir ag sy'n bosib, ond mae yna risg o anghywirdebau a chamddehongli peth gwybodaeth.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella'r daflen hon. Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau cyffredinol, e-bostiwch:

@ patientinformation@rcoa.ac.uk

📞 020 7092 1500

Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)

Churchill House, 35 Red Lion Square, London WC1R 4SG

rcoa.ac.uk

Ail Argraffiad, Mawrth 2022

Bydd y daflen hon yn cael ei hadolygu o fewn pum mlynedd o ddyddiad ei chyhoeddi.

@ 2022 Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)

Caniateir copïo'r daflen hon at ddibenion cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion. Dyfynnwch y ffynhonnell wreiddiol hon. Os ydych am ddefnyddio rhan o'r daflen hon mewn cyhoeddiad arall, rhaid rhoi cydnabyddiaeth addas a thynnu'r logos, y brandio a'r delweddau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.



Adolygwyd y daflen hon gan CHANGE People
changepeople.org